CYNGOR BRO LLANLLWNI
ADRODDIAD CYFARFOD MIS MEDI 2022

Roedd y Clerc wedi gosod poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Roedd pob cynghorwr yn bresennol.
Nid oedd heddwas yn bresennol.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Cafwyd trafodaeth am y datblygiadau arfaethedig a phenderfynwyd yn unfrydol i leoli'r caban yn rhan isaf y cae heb fod yn rhy bell o'r clawdd er mwyn derbyn cyfleustrau dŵr a thrydan yn hwylus. Byddai angen dau gaban tua 20 troedfedd o hyd a thua 8 troedfedd o led. Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â chaban Cae Chwarae Llanfihangel-ar-arth. Penderfynwyd paratoi cynllun a rhestr o'r hyn fyddai ei angen i gwblhau'r gwaith erbyn y cyfarfod nesaf sef gwaith daear, gwaith concrit, gwaith gosod y concrit ar y safle a charthffosiaeth.

CWTERION:
Mae pob cwter rhwng Mayfield ac Abergiar yn llawn. Angen cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i'w glanhau.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD:
Dim datblygiad pellach. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu ag Ambiwlans Llambed i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant.

Penderfynwyd cefnogi: Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023; Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llambed; Cerebral Palsy Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 14 Tachwedd am 8.00yh.